**Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc**

**18 Hydref 2017 12.30-13.30**

**Ystafelloedd Seminar 1 a 2 yn y Pierhead**

**Hawliau Plant a Brexit**

**Siaradwyr**
David Melding AC (Cadeirydd), Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
Lynne Neagle AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Dr. Simon Hoffman, Arsyllfa Hawliau Dynol Cymru
Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru
Catriona Williams OBE, Prif Weithredwr, Plant yng Nghymru

**Yn bresennol**

Marco Gil-Cervantes, Prif Weithredwr, Promo-Cymru
Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru
Samuel Hulett, Cynorthwyydd Gwybodaeth Polisi, Plant yng Nghymru
Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, NSPCC Cymru
Sharon Lovell, Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
Philip Manghan, Ymgynghorydd dros Gymru, y Gwasanaeth Addysg Gatholig
Helida Ramogi, Cyfarwyddwr Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiad, BAWSO
Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru
Keith Towler, Is-gadeirydd, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Helen West, Staff Cymorth Aelod Cynulliad (Julie Morgan), Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Ymddiheuriadau**
Julie Morgan AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc
Llyr Grufydd AC, Is-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Cyflwynodd David Melding AC y grŵp a rhoddodd ymddiheuriadau ar gyfer Llyr Gruffydd AC a Julie Morgan AC, nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Cyflwynodd Catriona Williams.

## 2. Cyflwyniad i'r cyfraniadau

Dechreuodd Catriona drwy drafod y cyd-destun. Un o'r pryderon canolog ar ôl canlyniad Brexit oedd 'sut y bydd hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc, a sut y byddant yn rhan o'r broses.' Nododd Catriona, hyd yma, nad oedd plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu barn a bod agenda gymdeithasol Brexit yn cael ei hesgeuluso.

Mae Plant yng Nghymru wrthi'n gweithio ar hyn drwy broses i gynnwys ei aelodau, y trydydd sector a phlant a phobl ifanc. Mae hefyd yn gweithio gydag aelodau Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc i gyflwyno gwelliannau ar gyfer Bil yr UE (Ymadael).

Mae Plant yng Nghymru hefyd yn gweithio gydag Eurochild a sefydliadau partner eraill yn y DU ac Ewrop.

Nododd Catriona y byddai hon yn broses barhaus.

Cyflwynodd Catriona Dr Simon Hoffman a Sean O'Neill.

## 3. Cyfraniadau: Brexit a hawliau plant yng Nghymru

Yn y cyd-destun, dywedodd Sean, am refferendwm mis Mehefin diwethaf, ei bod yn bwysig sicrhau bod hawliau yn cael eu diogelu yn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi amddiffyniad i blant drwy gyfarwyddebau penodol, yn ogystal ag yn anuniongyrchol drwy gyfarwyddebau yn y gwaith. Mae'n monitro aelod-wladwriaethau, yn cynhyrchu gwaith ymchwil, yn casglu data a chyfraith achosion drwy ddyfarniadau blaenorol.

Yna dechreuodd Simon ymdrin â blaenoriaethau allweddol o'r papur briffio, gan ddechrau gydag Erydiad y Warant o Hawliau Sylfaenol.

### Erydiad y Warant o Hawliau Sylfaenol

Nododd Simon fod Hilary Clinton wedi ymweld â Phrifysgol Abertawe yn ddiweddar, lle bu'n sôn yn helaeth am hawliau plant, ac yn nodi bod Brexit yn bygwth hawliau plant.

Dechreuodd Simon y drafodaeth ar erydiad y warant o hawliau sylfaenol.

Trafododd sefyllfa'r UE fel hyrwyddwr hawliau plant ac yn ei ffurf bresennol y diffyg gwarantau ar hawliau dynol ym mhroses Brexit. Nododd yn arbennig, yng nghyd-destun y DU, bod yr elyniaeth lwyr tuag at hawliau gan y cyfryngau ac anffafriaeth gan Lywodraeth y DU, yn ddatblygiadau brawychus.

Dywedodd Simon ei fod am grybwyll enghraifft benodol. Achos grŵp o bobl ifanc a oedd yn arbennig o agored i niwed; y rheini a oedd yn ddioddefwyr masnachu mewn pobl. Roedd methiant i ddarparu amddiffyniad cynhwysfawr i blant sydd wedi'u masnachu, ac i sicrhau gwarcheidiaeth.

Dywedodd fod sawl peth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud er bod Llywodraeth y DU yn arwain ar Brexit, a bod llawer o argymhellion yn y papur briffio.

### Brexit a chydlyniad cymdeithasol

Yna symudodd Simon ymlaen i sôn am yr effaith y mae Brexit, a'r drafodaeth o'i amgylch, wedi'i chael ar gydlyniad cymdeithasol.

Soniodd am y ddadl gul, gynhennus ynghylch mewnfudo a oedd yn taflu cysgod ar faterion ehangach. Tynnodd sylw hefyd at EYST Abertawe yn nodi ymddygiad bygythiol cynyddol tuag at ymfudwyr a lleiafrifoedd ethnig eraill ers y refferendwm. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru arwain ar fynd i'r afael â'r mater yng Nghymru, gan ddefnyddio nod lles cymunedau cydlynol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel sail ar ei gyfer.

### Colli cyllid yr UE i gefnogi cymunedau dan anfantais

Dechreuodd Sean drwy drafod y sefyllfa o ran tlodi yng Nghymru, sydd â'r gyfradd tlodi uchaf mewn unrhyw ranbarth yn y DU, a chefnogaeth yr UE i fynd i'r afael ag ef, fel Cronfeydd Strwythurol.

Dywedodd Sean fod yr hyn sy'n digwydd ar ôl Brexit yn llai sicr. Ceir argymhellion llawn yn y papur briffio, ond mae'n allweddol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i sicrhau y bydd cyllid newydd yn gyfartal neu'n rhagori ar gefnogaeth gyfredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ôl gadael yr UE.

**Anwybyddu llais plant**

O ran cyfranogiad, dywedodd Sean nad yw plant a phobl ifanc wedi cael cyfleoedd ystyrlon i gymryd rhan. Mae gwaith gan Cymru Ifanc wedi amlygu'r gorbryder a'r pryderon ynghylch Brexit gan blant a phobl ifanc.

Dywedodd Sean ei bod yn bwysig sicrhau bod ffyrdd *ystyrlon* o gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses, ac roedd argymhellion i'r perwyl hwn yn y papur briffio. Ymhlith y rhain roedd y ffaith y byddai angen gwybodaeth gywir ar blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.

Diolchodd David Melding i Sean a Simon am y cynigion ymarferol a phenodol yn y papur briffio a chyflwynodd Lynne Neagle, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Diolchodd Lynne i'r Grŵp am y cyfle i gymryd rhan. Dywedodd mai Brexit yw'r mater pwysicaf yn ein hamser. Ailddatganodd rôl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i graffu ar waith Llywodraeth Cymru o ran Brexit a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o broses Brexit.

Roedd sawl maes allweddol i'r Pwyllgor.

Yn gyntaf, yr ymchwiliad i waith ieuenctid. Mae hyn wedi gofyn am gyfraniad cyllid yr UE. Byddem yn hoffi'n fawr i'r rhaglen Erasmus barhau wedi Brexit, gan ehangu gorwelion pobl.

Yn ail, colli Cronfa Gymdeithasol Ewrop a beth allai ei disodli. Yn ddiweddar, dywedodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth na ddylai Cymru fod mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i Brexit.

Yn drydydd, cyfranogiad. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gweithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi wrth wraidd y drafodaeth. Dim ond 37 y cant o bobl ifanc sy'n teimlo bod gwleidyddiaeth Prydain yn dangos agweddau pobl ifanc ar hyn o bryd ac yn adlewyrchu materion sy'n bwysig iddynt. Mae'r pwyllgor yn rhan o Senedd Ieuenctid Cymru, a llawer o waith arall. Mae ei flaengynllun gwaith yn cynnwys craffu ar y cwricwlwm newydd.

Yn bedwerydd, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ni allwn anwybyddu Brexit, ond ni ddylid caniatáu iddo effeithio ar wasanaethau plant. Gyda hynny mewn golwg, bydd y pwyllgor yn parhau i graffu ar ddefnydd Llywodraeth Cymru o Asesiadau o Effaith Hawliau Plant, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

Yn bumed, Bil yr UE (Ymadael); diolchodd Lynne i Eurochild am ei fewnbwn, a nododd y pryderon o ran trosglwyddo Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn llawn i Fil yr UE (Ymadael). Dylai'r Bil gael gwelliant i gofnodi'r CCUHP ar wyneb y Bil.

## 4. Trafodaeth

Diolchodd Vivian Laing (NSPCC) i'r cyfranwyr am lunio'r papur. Nododd fod llawer o amddiffyniadau o waith trawsffiniol a'r strwythurau a oedd yn ei alluogi, a oedd mewn perygl o gael eu colli, a dylid ehangu hyn yn yr argymhellion, i ddweud y dylid gwella gwaith trawsffiniol, a'i bod yn hollbwysig bod y DU yn parhau i fod yn aelod o EuroPol. Yna, eglurwyd fod nifer o alwadau ledled y DU lle mae Plant yng Nghymru a'r Arsyllfa ynghlwm wrthynt, ac y maent yn eu cefnogi ond mae papur heddiw yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y gellir ei wneud yng Nghymru tra'n nodi ei bod yn bwysig argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o'r strwythurau hynny.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd y Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Blant yng Nghymru yn San Steffan, a dywedodd Catriona fod teimlad o anobaith ymhlith Aelodau Seneddol Cymru. Nododd ei bod yn bwysig inni geisio sicrhau bod Aelodau Cynulliad Cymru yn gwthio eu cydweithwyr yn San Steffan.

Nododd Marco Gil-Cervantes ei fod wedi bod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc am ddeng mlynedd ar hugain ac nid yw wedi gweld unrhyw beth fel canlyniad refferendwm yr UE, yn enwedig ar fudwyr yr UE. Roedd yr ansicrwydd ynghylch yr hyn oedd am ddigwydd yr un mor anodd ar bobl gyda dinasyddiaeth yr UE â'r adlach yr oeddent yn ei hwynebu. Roedd rhywfaint o addysg yn cael ei wneud mewn ysgolion, (soniodd am un achos lle'r oedd athrawon wedi rhoi gwers ar yr UE a gwahaniaethau rhwng pobl ac yna cafodd y plant y cyfle i chwalu wal wedi'i wneud o focsys esgidiau), ond mae angen gwneud mwy  Roedd angen dealltwriaeth draws-genhedlaeth, lle roedd plant a phobl ifanc nid yn unig yn cael y cyfle i gael trafodaethau gwybodus, ond yn cael y cyfle i reoli'r ffynonellau gwybodaeth drostynt eu hunain. Roedd gwasanaeth gwybodaeth genedlaethol o gyllid yr UE yn arfer bod ond nid oes dim byd mwyach.

Ymatebodd Sean, gan ddweud bod cadarnhau statws gwladolion yr UE yn hanfodol - roedd rhai gwladolion yr UE eisoes wedi'u hintegreiddio'n dda i'r DU. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn mabwysiadu dull pum mlynedd, ond nid yw wedi gwneud unrhyw warantau a dim gwybodaeth am blant a phobl ifanc yn seiliedig ar eu hawliau eu hunain; mae wedi'i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar hawliau eu rhieni. Mae'r bil newydd yn y Flwyddyn Newydd yn gyfle i ddatblygu gwell hawliau i blant, gan ddefnyddio'r enghraifft a ddarparwyd yng Nghymru.

Yn ddiweddar, mae Sally Holland wedi dychwelyd o gynhadledd gyda phob un o'r comisiynwyr plant eraill yn Ewrop. Roeddent wedi drafftio neges at arweinwyr yr UE sy'n gofyn iddynt sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi wrth wraidd proses Brexit. Roedd hyn yn dilyn papur briffio defnyddiol ar hawliau penodol plant sy'n wladolion yr UE yn y DU. Maent hefyd wedi galw am arweinwyr y DU a'r UE i sicrhau eu bod yn cynnal asesiadau o effaith hawliau plant ar benderfyniadau newydd. Dywedodd nad oedd y neges honno wedi'i chyflwyno eto, ond roedd yn hapus i'w rhannu.

Nododd Sharon Lovell ei phrofiad yn darparu eiriolaeth ar gyfer ceiswyr lloches sy'n agored i niwed wrth iddynt fynd drwy'r broses angenrheidiol o bethau fel gwiriadau oedran. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym mhroses Brexit, yr oedd angen iddi fod yn dryloyw ac yn deg. Roedd CCUHP yn hanfodol; nid oedd pob plentyn yn glir ynghylch eu hawliau o dan CCUHP ac roedd angen cryfhau addysg ynghylch hyn. Gofynnodd a fyddai grŵp arbenigol yn cael ei sefydlu ar gyfer y broses eirioli yn Brexit, ac os felly, pwy fyddai'n ei redeg, ei hwyluso, ac i ba bobl ifanc.

Nododd Catriona nad oedd unrhyw fewnbwn gan blant a phobl ifanc i'r grwpiau arbenigol cenedlaethol, a oedd yn parhau gyda Llywodraeth Cymru. Roeddent wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru ac yn deall bod peth arian wedi'i gytuno i gynnwys plant a phobl ifanc ym mis Chwefror, ond ar hyn o bryd nid oedd unrhyw waith pellach wedi'i wneud.

Dywedodd Lynne y byddai'n briodol iddi gyflwyno cwestiwn ar hyn yng Nghwestiynau'r Prif Weinidog. Dywedodd ei bod yn hanfodol rhoi hawliau plant wrth wraidd agenda Brexit.

Cytunodd Sean fod mudwyr yr UE yn grŵp pwysig, ac weithiau'n grŵp a gaiff ei anwybyddu. Diolchodd Keith Towler i'r Grŵp am y papur briffio a gofynnodd a fyddant yn defnyddio eu presenoldeb ar y grŵp cynghori plant a phobl ifanc i gyflwyno'r argymhellion hyn.

Nododd Simon ei bod yn bwysig cyflwyno'r argymhellion ac roedd yn cefnogi'r ffordd honno.

Dywedodd Sean fod fersiwn Gymraeg y papur briffio ar ei ffordd, a chyn gynted ag y caiff ei gyfieithu, y gellid disgwyl mwy o gyhoeddusrwydd ynghylch y papur briffio.

Nododd Helida Ramogi ei bod wedi cael adborth gan gymunedau eu bod yn teimlo bod yr ymgynghoriadau y gofynnir iddynt gymryd rhan ynddynt yn ymarferion ticio bocsys, ac ni chafodd ei nodi erioed pa fath o adborth y gallent ei ddisgwyl. Gofynnodd a ellid ychwanegu hynny at y papur briffio. Yr ail bwynt yr oedd am ei godi oedd yr argymhelliad ar y strategaeth Troseddau Casineb sydd ag agwedd negyddol gan ei bod ond yn canolbwyntio ar y 'Troseddau Casineb'; roedd Helida o'r farn y dylai fod agwedd gadarnhaol hefyd, i adlewyrchu a galluogi'r cymunedau sydd eisoes yn ceisio integreiddio.

Ymatebodd Simon Hoffman i'r ail bwynt yn gyntaf, gan ddweud bod y strategaeth Troseddau Casineb yn cynnwys materion nad ydynt yn droseddau, a bod canolbwyntio ar droseddau bob amser yn cyfyngu ar weithredu; sy'n bwynt pwysig iawn.

O ran y pwynt cyntaf, roedd yn bwysig bod cymunedau'n cael eglurder ynghylch strwythurau ac roedd yn rhwystredig bod plant a phobl ifanc yn teimlo felly. Mae gan blant a phobl ifanc farn ar Brexit, a nododd fod ysgolion wedi bod yn rhan o'r ddadl glymblaid ar hawliau dynol yn ddiweddar; maent yn amlwg eisiau cymryd rhan. Mae'n bwysig sefydlu lle mae'r wybodaeth honno'n mynd, a sut y mae plant a phobl ifanc yn cael y dylanwad hwnnw. Ar hyn o bryd mae'n aneglur iawn.

Dywedodd Catriona ei bod yn poeni nad oedd Llywodraeth y DU yn sôn am faterion cymdeithasol, a'u bod yn canolbwyntio ormod ar yr economi.

Nododd Jan Pickles fod newid yn achosi pryder i oedolion, ond hefyd i blant a phobl ifanc. Yn aml, rydym ond yn gwybod yr effaith ar blant a phobl ifanc ar ôl y ffaith. Nid oes dim sy'n cwmpasu materion cyffredinol ynghylch negeseuon ehangach i blant a phobl ifanc, er enghraifft, y ffordd y caiff pethau eu portreadu yn y cyfryngau.

Yn gysylltiedig â phwynt Jan am blant a phobl ifanc yn pryderu ynghylch Brexit hefyd, nododd Catriona fod lles emosiynol ac iechyd meddwl yn un o'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru Ifanc.

Gan nodi pwynt Jan ynghylch portreadu Brexit a'i broses, dywedodd Sean mai'r perygl gwirioneddol yw y bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth wael iawn. Roedd naws yn bwysig hefyd; mae'n rhaid inni sicrhau nad yw'r wybodaeth y maent yn ei chael yn ffeithiol yn unig, a dylid ystyried naws y wybodaeth y mae plant a phobl ifanc yn ei chael.

Dywedodd Catriona fod yn rhaid i unrhyw ymgyrchu a wneir fod yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Ni all bob amser fod yn ddu i gyd. Rhaid iddo fod yn bwysig cael cymaint â phosibl ynghylch amddiffyn hawliau mewn deddfwriaeth.

Dywedodd Simon ei fod am godi'r pwynt hwnnw eto, y dylai ffocws y ddadl fod ar blant a'r effaith y byddai materion cymdeithasol yn ei chael arnynt, nid dim ond canolbwyntio ar ganlyniadau economaidd.